cyngor ar bopeth

ofgem

# YNNI-
# Y FARGEN ORAU

Awst 2011

**Lluniwyd y llyfryn hwn gan Ofgem a'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth fel canllaw ar yr arbedion y gallech eu gwneud drwy ddefnyddio ynni'n effeithlon; newid cyflenwr ynni a/neu newid eich tariff.**

**Mae hefyd yn tynnu sylw at yr help sydd ar gael gan gyflenwyr a'r Llywodraeth os ydych yn ei chael hi'n anodd talu eich biliau.**





Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn yn gywir ym mis Awst 2011.



Erbyn hyn mae'n haws nag erioed chwilio am y fargen orau o ran ynni. Bellach mae'n ofynnol i gyflenwyr:

- ddarparu gwybodaeth gliriach ar filiau
- rhoi datganiad blynyddol i chi (sy'n nodi eich tariff, faint o nwy neu drydan a ddefnyddiwyd yn ystod y 12 mis diwethaf gyda'r cyflenwr hwnnw, cost amcangyfrifedig y cyflenwad ar gyfer y 12 mis nesaf mewn £oedd – os ydych yn defnyddio'r un swm o ynni ar yr un tariff)
- caniatáu i gwsmeriaid sy'n defnyddio mesuryddion cerdyn, allwedd neu daleb newid cyflenwr hyd yn oed os oes ganddynt ddyledion o hyd at £200
- peidio â chodi mwy arnoch am un math o ddull talu na'r llall, oni ellir cyfiawnhau'r taliadau gan y gost
- sicrhau bod eu gwerthwyr ar garreg y drws yn rhoi amcangyfrifon ysgrifenedig a llenyddiaeth werthu sy'n glir, yn gywir ac yn hawdd eu deall.

Mae newid cyflenwr ynni yn un ffordd y gallwch arbed arian ar eich biliau nwy a thrydan. Efallai y byddwch hefyd yn gallu cael gwell tariff ynni  gan eich cyflenwr presennol felly mae'n werth cysylltu ag ef i drafod p'un a ydych ar y tariff gorau y mae'n ei gynnig. Gallech arbed arian hefyd drwy newid y ffordd rydych yn talu eich biliau – siaradwch â'ch cyflenwr.

[1] Mae nifer o wahanol dariffau, gan gynnwys: rhagdalu; ar-lein; un math o danwydd; tanwydd deuol; prisiau wedi'u capio; ynni gwyrdd; economi 7; tariff tracio'r farchnad ac ati.

# Enghreifftiau o'r help a gafwyd drwy **Ynni - Y Fargen Orau**

Siaradodd gweithiwr cyngor rheng flaen a oedd wedi cael hyfforddiant ar Ynni - Y Fargen Orau â defnyddwraig oedrannus am ei biliau ynni. Roedd y ddefnyddwraig o'r farn bod ganddi fargen dda, yn enwedig am ei bod wedi cael taleb siopa gwerth £30 gan ei chyflenwr. Gofynnodd y cynghorydd faint roedd yn ei thalu y mis am ei hynni - a'r ateb oedd £55. Dywedodd y cynghorydd wrth y ddefnyddwraig ei bod yn talu £40 y mis ac yn byw mewn eiddo sydd ychydig yn fwy. Roedd hyn yn golygu bod y ddefnyddwraig yn talu £180 yn fwy y flwyddyn am ei thrydan - nid oedd y daleb £30 yn edrych fel bargen gystal mwyach. Gan weithio gyda'i gilydd, adolygwyd ei thariff ynni a llwyddwyd i drefnu gostyngiad yn y taliad misol i £41 y mis - gan arbed £168 y flwyddyn.

Ar ôl mynd i sesiwn Ynni – Y Fargen Orau, aeth defnyddiwr adref a dywedodd wrth ei chyflenwr am ei hanabledd. Dywedodd y cyflenwr y byddai'n newid ei mesurydd a'i rhoi ar dariff is, y cyfan roedd angen iddi ei wneud oedd anfon manylion ei hanabledd ato.



# Sut i gael y **fargen orau**

Cyn i chi benderfynu newid cyflenwr a/neu eich tariff dylech sicrhau bod gennych eich datganiad blynyddol a chopi o'ch biliau diweddaraf. Os ydych yn defnyddio mesurydd cerdyn, taleb neu allwedd, dylai fod gennych syniad o faint rydych yn ei wario bob wythnos/mis ar ynni er mwyn sicrhau eich bod yn dewis y fargen orau i chi. Bydd angen y wybodaeth ganlynol arnoch:

- enw eich tariff presennol
  (os nad ydych yn gwybod gallwch gysylltu â'ch cyflenwr)
- faint o arian y gwnaethoch ei wario ar ynni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- sut rydych yn talu am eich ynni ar hyn o bryd
- eich cod post.





Mae sawl ffordd y gallwch gael gwybod am fargeinion ynni a allai fod yn well:

- siaradwch â'ch cyflenwr neu edrychwch ar ei wefan
- defnyddiwch un o'r gwasanaethau cymharu prisiau ar-lein cymeradwy a restrir ar wefan Llais Defnyddwyr **www.consumerfocus.org.uk**
- os na allwch gael mynediad i'r rhyngrwyd gallwch ffonio **Cyswllt Defnyddwyr** ar **08454 040506** i gael ffeithlen brisio ar gyfer eich ardal neu gyngor cyffredinol
- cysylltwch â chyflenwyr ynni eraill i gymharu bargeinion (ceir rhifau ffôn ar ddiwedd y llyfryn hwn).

Mae cyflenwyr ynni yn cynnig ad-daliadau a chymorth o dan y cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes i rai o'u cwsmeriaid mwyaf bregus. Ffoniwch eich cyflenwr i weld a ydych yn gymwys, neu os ydych wedi bod i sesiwn Ynni - Y Fargen Orau, siaradwch â'r person a wnaeth ei chynnal gan fydd ganddo ragor o wybodaeth.

# Gwerthwyr

Os byddwch yn siarad â gwerthwr sy'n cnocio ar eich drws neu sydd â stondin werthu mewn archfarchnad, mae'n bwysig cofio mai dim ond i un cyflenwr ynni y mae'n gweithio ac felly dim ond bargeinion gan y cyflenwr penodol hwnnw y bydd yn gallu eu dangos i chi. Mae'n bwysig bod gennych wybodaeth o'ch datganiad blynyddol neu'ch biliau diweddaraf wrth ystyried unrhyw fargen.

Mae rhai bargeinion yn cynnig pris da i chi am eich ynni am gyfnod penodol. Sicrhewch eich bod yn deall pa mor hir y mae'r contract rydych yn ei lofnodi yn para, oherwydd mae'n bosibl y codir tâl arnoch os byddwch am adael y contract yn gynnar. Pan fydd eich cyfnod penodedig yn dod i ben sicrhewch eich bod yn trosglwyddo i'r fargen orau i chi.

Mae rhai bargeinion yn 'fargeinion ar-lein' - mae hyn yn golygu eich bod yn rheoli eich cyfrif ar-lein ac efallai na fydd hyn yn addas i chi os nad oes gennych fynediad rheolaidd i'r rhyngrwyd.

**Cofiwch, peidiwch byth â chael eich perswadio i dderbyn pecyn ynni nad yw'n iawn i chi.**



# Unwaith y byddwch wedi **dewis...**

Os byddwch yn aros gyda'ch cyflenwr presennol ond yn newid i dariff gwahanol bydd eich cyflenwr yn trefnu'r newid. Os byddwch yn dewis cyflenwr newydd, unwaith y bydd y contract wedi'i lofnodi, rhowch ddarlleniad mesurydd i'ch cyflenwr newydd i sicrhau eich bod yn cael eich bilio ar yr adeg gywir ac am y swm cywir.

Ar ôl llofnodi'r contract, os na fyddwch yn fodlon ar eich penderfyniad i newid cyflenwr, bydd gennych saith diwrnod gwaith i ffonio'r cyflenwr newydd a chanslo'r contract.



Ni chaiff eich cyflenwad trydan a/neu nwy ei dorri tra byddwch yn newid cyflenwr, a dylai'r broses fod wedi'i chwblhau mewn 6-8 wythnos (yn ystod y cyfnod hwnnw bydd eich ynni yn parhau i gael ei gyflenwi gan eich hen gyflenwr). Ni chaiff eich cyflenwad ei ddatgysylltu ac ni fyddwch heb nwy na thrydan, ac ni fydd angen newid eich mesurydd.

Os cewch unrhyw broblemau yn ystod y broses newid gallwch naill ai gysylltu â'ch hen gyflenwr neu'ch cyflenwr newydd neu Cyswllt Defnyddwyr am help a chyngor.

# Pethau i'w hystyried

Os byddwch mewn dyled i'ch cyflenwr ynni ac yn ceisio newid i gyflenwr gwahanol, efallai y cewch eich 'blocio oherwydd dyled'. Golyga hyn fod gan eich cyflenwr nwy neu drydan presennol yr hawl i'ch atal rhag gadael nes y byddwch wedi talu eich dyled iddo. Ni allwch gael eich atal rhag gadael oherwydd dyled os mai eich cyflenwr sydd ar fai eich bod mewn dyled, er enghraifft oherwydd darlleniadau mesurydd anghywir neu broblemau bilio. Os yw eich dyled yn llai na £200 a'ch bod yn defnyddio mesurydd cerdyn, taleb neu allwedd, gallwch drosglwyddo eich dyled i'ch cyflenwr newydd.

Os ydych mewn dyled i'ch cyflenwr nwy neu drydan a'ch bod yn ei chael hi'n anodd gwneud taliadau neu os na allwch gytuno ar gynllun talu ag ef – cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth leol am gyngor neu ewch i **www.adviceguide.org.uk**

Os ydych o oedran pensiynadwy, yn anabl neu â salwch cronig, gallwch fod yn gymwys ar gyfer Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth eich cyflenwr. Mae hyn yn rhoi'r hawl i chi gael gwasanaethau ychwanegol am ddim, megis: biliau mewn print bras a braille yn ogystal â biliau siarad; gwasanaethau darllen mesurydd chwarterol; symud mesurydd rhagdalu i wella mynediad a chael blaenoriaeth mewn argyfwng (gallai hyn gynnwys darparu cyfleusterau gwresogi a choginio amgen os caiff eich cyflenwad ei ddatgysylltu).





# Problemau wrth dalu eich biliau ynni?

Mae'r rhan fwyaf o gyflenwyr yn cynnig help i'w cwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau.

**Rheoli biliau ynni -** yn dibynnu ar eich cyflenwr a'ch amgylchiadau, gallech gael help gan eich cyflenwr. Mae hyn yn cynnwys: ad-daliadau i gwsmeriaid penodol a all fod yn gymwys os ydynt dros 60 oed, ar fudd-daliadau penodol neu ar incwm isel; arian oddi ar eich bil ynni; gwiriadau hawl i gael budd-daliadau i sicrhau bod y cwsmer yn cael holl fudd-daliadau'r llywodraeth y mae ganddo hawl iddynt a chronfeydd ymddiriedolaeth sy'n cynnig grantiau i gwsmeriaid, er enghraifft i ddileu dyledion neu brynu offer newydd.

**Ad-dalu dyledion** - os ydych mewn dyled i'ch cyflenwr mae'n rhaid iddo gynnig trefniant talu sy'n ystyried eich sefyllfa ariannol a'ch gallu i dalu. Er enghraifft, gallech ad-dalu eich dyled drwy'r cynllun Tanwydd Uniongyrchol, os ydych yn cael y budd-daliadau canlynol: cymhorthdal incwm; lwfans ceisio gwaith; credydau pensiwn neu lwfans cyflogaeth a chymorth. Caiff swm penodedig ei dynnu bob wythnos o'ch budd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a'i drosglwyddo i'ch cyflenwr ynni.

**Osgoi Datgysylltu** - Os byddwch yn gadael i'ch biliau ynni godi a chodi, rydych chi'n wynebu'r risg o gael eich datgysylltu, sy'n golygu y bydd eich cyflenwr yn torri cyflenwad eich ynni.

Os ydych yn wynebu cael eich datgysylltu, mae rheolau llym o ran pwy sy'n gallu a phwy sy ddim yn gallu cael ei ddatgysylltu.

Ni allwch gael eich datgysylltu yn ystod y chwe mis rhwng mis Hydref a mis Mawrth os ydych o oedran pensiynadwy ac yn byw ar eich pen eich hun neu'ch bod yn byw gyda phobl sydd o oedran pensiynadwy neu o dan 18 oed. Os oes pensiynwr yn byw gyda chi, dylech hysbysu eich cyflenwr ynni gan fod rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i beidio â'ch datgysylltu. Mae hyn hefyd yn wir os oes rhywun â salwch cronig neu sy'n anabl yn byw yn eich cartref.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o gytundeb gwirfoddol os byddwch yn prynu eich ynni gan unrhyw un o'r chwe chyflenwr mwyaf. Y rhain yw Nwy Prydain, Scottish and Southern Energy, e.on, npower, EDF a Scottish Power. Mae pob un o'r cwmnïau hyn wedi cytuno i beidio â datgysylltu cyflenwadau trydan na nwy cwsmeriaid sydd mewn sefyllfa fregus yn fwriadol ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Ystyrir bod rhywun mewn sefyllfa fregus os yw oedran, iechyd, anabledd neu ansicrwydd ariannol difrifol yn golygu na all ddiogelu ei les personol na lles aelodau eraill o'r cartref.

Ni allwch gael eich datgysylltu os oes gennych orchymyn rhyddhad rhag dyled; os oes arnoch arian i gyflenwr blaenorol; os ydych yn fethdalwr a bod y ddyled yn ymwneud â chyfnod cyn i chi fynd yn fethdalwr neu os nad yw'r ddyled yn ymwneud â'r nwy neu'r trydan rydych wedi'i ddefnyddio ond am ryw wasanaeth neu declyn arall rydych wedi'i brynu gan eich cyflenwr.

Mae help penodol ar gael i bobl sy'n wynebu cael eu datgysylltu neu sydd wedi cael eu datgysylltu. Ffoniwch Cyswllt Defnyddwyr i gael mwy o wybodaeth am hyn.





# Ble i gael help

## Mentrau'r Diwydiant

- **Llinell Gymorth Cartrefi Cynnes**

  Llinell gymorth genedlaethol am ddim a ddarperir gan gyflenwyr ynni ar gyfer cwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau tanwydd. Mae'n cynnig cyngor ar bethau megis cynlluniau talu rhatach a grantiau ar gyfer inswleiddio eich cartref. Ffoniwch **0800 33 66 99** neu ewch i'r wefan yn **www.homeheathelpline.org.uk**

## Mentrau'r Llywodraeth

**Mae mentrau ar gael gan y llywodraeth i rai cwsmeriaid a all wneud ynni yn fwy fforddiadwy. Y rhai allweddol yw:**

- **Taliad Tanwydd Gaeaf** sy'n helpu i dalu costau cadw'n gynnes yn y gaeaf ar gyfer pobl a anwyd ar neu cyn 5 Ionawr 1951. Mae taliadau yn amrywio rhwng £100-300 yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

  Am ragor o wybodaeth ffoniwch **08459 15 15 15** neu ewch i **www.direct.gov.uk**

# Ble i gael help
**parhad**

- Mae **taliadau tywydd oer** yn helpu pobl sy'n cael budd-daliadau penodol â'u costau gwresogi ychwanegol yn ystod y gaeaf. Caiff taliad ei wneud yn awtomatig ar gyfer pob cyfnod o saith diwrnod rhwng 1 Tachwedd ac 31 Mawrth pan fydd y tymheredd lleol yn sero gradd Celsius neu'n is ar gyfartaledd dros saith diwrnod yn olynol.

---

- **Canolfannau Cynghori'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni**
  Gall eich Ymddiriedolaeth Arbed Ynni leol roi cyngor a help ar effeithlonrwydd ynni fel na fydd angen i chi ddefnyddio cymaint o ynni - gan arbed arian i chi. Ffoniwch eich canolfan gynghori leol ar **0800 512 012** neu ewch i **www.energysavingtrust.org.uk**

---

**Cymru**

- Mae **Nyth** yn darparu gwelliannau ynni os ydych yn cael budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd, bod gan eich cartref gyfradd effeithlonrwydd ynni F neu G a'i fod yn eiddo preifat neu'n eiddo sy'n cael ei rentu'n breifat. Am ragor o wybodaeth ewch i **www.nestwales.org.uk**

## Lloegr

- Gall **Warm Front** ddarparu pecyn o welliannau inswleiddio a gwresogi gwerth hyd at £3,500 (neu £6,000 os caiff technolegau olew, carbon isel neu ynni adnewyddadwy eu hargymell) i gartrefi cymwys.

  Am ragor o wybodaeth ffoniwch dîm Warm Front ar **0800 316 2805** neu ewch i **www.direct.gov.uk**

---

## Yr Alban

- Ariennir yr **Energy Assistance Package** gan Lywodraeth yr Alban ac fe'i rheolir gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Mae'n rhoi cyngor a chymorth i helpu defnyddwyr i leihau eu biliau tanwydd a gwneud cartrefi yn gynhesach neu'n gyfforddus.

  Am ragor o wybodaeth ffoniwch **0800 512 012** neu ewch i **www.energyassistancepackage.com**

---

Mae ystod eang o help ar gael gan eich cyflenwr ynni - ffoniwch ef i gael rhagor o wybodaeth. Efallai y bydd eich cyflenwr hefyd yn gallu rhoi gwybodaeth i chi am sut i wneud eich tŷ yn fwy effeithlon o ran ynni, fel na fydd angen i chi ddefnyddio cymaint o ynni - gan arbed arian i chi! Mae gan gyflenwyr hefyd gynlluniau inswleiddio'r atig ar gyfer cartrefi incwm isel neu maent yn sybsideiddio cost inswleiddio waliau ceudod (ar gyfer cwsmeriaid ar incwm isel neu gwsmeriaid dros 70 oed).

# Bod yn **ynni effeithlon**

Gallwch wneud amrywiaeth o bethau i wneud eich tŷ'n fwy effeithlon o ran ynni - a fydd yn lleihau eich biliau ynni. Gallwch siarad â'ch cyflenwr ynni neu ewch i'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (**0800 512 013**), ond am y tro dyma rai awgrymiadau arbed ynni.

1. Os oes gennych switsh amseru, trefnwch i'r gwres a'r dŵr poeth ddod ymlaen pan fydd eu hangen yn unig: 30 munud cyn i chi godi yn y bore a threfnwch iddo droi i ffwrdd 30 munud cyn i chi adael.
2. Gosodwch thermostat y silindr dŵr poeth i 60 gradd Celsius neu 140 gradd Fahrenheit.
3. Tynnwch eich llenni gyda'r nos i atal gwres rhag dianc drwy'r ffenestri ac edrychwch allan am ddrafftiau wrth ffenestri a drysau.
4. Cofiwch ddiffodd goleuadau pan fyddwch yn gadael ystafell.
5. Peidiwch â gadael teclynnau mewn modd segur a chofiwch beidio â gadael gliniaduron a ffonau symudol yn y plwg gwefru yn ddiangen.
6. Pan fyddwch yn golchi, ceisiwch lenwi'r peiriant golchi dillad, y peiriant sychu dillad neu'r peiriant golchi llestri. Mae llwyth cyfan yn defnyddio llai o ynni na dau lwyth hanner llawn.



7 Ceisiwch ond berwi'r dŵr sydd ei angen arnoch.

8 Gall tap dŵr poeth sy'n diferu wastraffu digon o ynni mewn wythnos gyfan i lenwi hanner baddon. Felly trwsiwch dapiau sy'n diferu a gwnewch yn siŵr eu bod wedi'u diffodd yn gyfan gwbl.

9 Yn olaf, mae bylbiau golau arbed ynni yn para hyd at ddeg gwaith yn fwy na bylbiau arferol a gallwch arbed £45 dros oes y bwlb.

Gydag ychydig o ymdrech ac ymchwil, gallwch wneud yn siŵr nad ydych yn gwario mwy ar ynni na'r hyn sydd ei angen.

# Rhifau cyswllt cyflenwyr ynni

| | |
|---|---|
| Ebico | 0800 458 7689 |
| Ecotricity | 0845 555 7100 |
| EDF Energy<br>(gan gynnwys cwsmeriaid Seeboard a SWEB) | 0800 096 9000 |
| E.ON | 0845 059 9905 |
| First Utility | 0845 215 5000 |
| Good Energy | 0845 456 1640 |
| Green Energy | 0845 456 9550 |
| Loco2energy | 0845 074 3601 |
| Npower | 0845 078 2925 |
| British Gas | 0800 072 8629 |



| | |
|---|---|
| OVO Energy | 0800 599 9440 |
| Scottish Hydro | 0845 300 2141 |
| Scottish Power | 0845 2700 700 |
| Scottish & Southern Energy (gan gynnwys cwsmeriaid Equigas/Equipower Atlantic, Severn Trent Energy, Southern Electric) | 0845 7444 555 |
| Spark Energy | 0845 869 4002 |
| SWALEC | 0800 052 5252 |
| Telecom Plus (including Utility Warehouse) | 0844 815 7777 |
| The Co-operative Energy | 0800 954 0693 |
| Utilita | 0845 450 4357 |

Gall y chwe phrif gyflenwr ynni (EDF Energy; E.ON; Npower; Nwy Prydain; Scottish Power a Scottish & Southern Energy) ddarparu gwasanaeth cyfieithu / cyfieithu ar y pryd proffesiynol os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf. Ffoniwch eich cyflenwr a rhowch wybod iddo yr hoffech ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, neu os bydd aelod o'ch teulu neu ffrind am ddefnyddio'r gwasanaeth - er mwyn teimlo'n hyderus wrth gyfathrebu â'r cyflenwr.

**Ewch ar-lein i wylio ein videos:**
http://www.ofgem.gov.uk/cymraeg/yyfocal/Pages/yyfocal.aspx

Ymgyrch i ddefnyddwyr yw Ynni - Y Fargen Orau a ddarperir gan y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, yng Nghymru a Lloegr, sy'n hyfforddi gweithwyr cyngor rheng flaen o asiantaethau defnyddwyr i roi cyngor i ddefnyddwyr ar arbed arian ar eu biliau ynni. Mae Ofgem, a ariannodd y cynllun peilot, wedi cefnogi'r ymgyrch ers ei lansio yn 2008.

Caiff ymgyrch Ynni – Y Fargen Orau 2011/2012 ei hariannu gan Nwy Prydain, EDF Energy, E.ON, npower, ScottishPower a Scottish and Southern Energy.

ofgem

**www.ofgem.gov.uk**

cyngor ar bopeth

**www.citizensadvice.org.uk**